

Cofnodion Cyfarfod 6ed Hydref 2020

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cyngorwyr, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams
Croesawyd Y Cyngorwyr Elwyn Jones

Ymddiheuriadau.

Richard Ll. Jones, Idris Thomas, Lowri Hughes, Emma Chappell, Rhian Evans-Hill ac Aled Green

Croeso

Rhodddwyd gair o groeso i bawb. Rydym fel Cyngor yn dallt, nad yw yn bosib i bawb gyfarfod yn y ffordd yma. Ond mae'r Cadeirydd yn awyddus i bawb gysylltu â'r clerc er mwyn codi materion neu os oes angen rhoi mewnbwn ychwanegol yn dilyn cyfarfodydd.

Datgan buddiant

Derbyniwyd Ffurflen o Fuddiannau i fudiadau Eraill a/neu Bersonol gan Hefin Williams.

Atgoffwyd pawb i yrru'r ffurflen yn ôl i'r clerc mor fuan ag sydd bosib os gwelwch yn dda.

Cofnodion Cyfarfod 22ain Fedi 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Taith Urdd Patagonia - Yn dilyn rhodd gan Y Cyngor at daith Gwion Gruffydd I Batagonia gyda'r Urdd, siomedig iawn oedd dallt na chafodd Gwion fynd i Batagonia wedi hir ymdrech yn codi arian ar gyfer y daith. Derbyniodd y Cyngor y cyfraniad yn ei ôl, a diolch iddo am ei onestrwydd. Penderfynwyd os bydd Gwion yn cael cyfle i fynd ar daith debyg yn y dyfodol, iddo gysylltu â'r Cyngor yn syth fel y gallwn edrych i'w gymorth ar daith o'r fath eto.

Gohebiaethau a Materion Eraill

Llwybrau - Derbyniwyd llythyr ynglŷn â Llwybr Rhif 16 Clwt y Bont. Rhai blynyddoedd yn ôl, gan fod cynifer o lwybrau yn y plwyf, amlinellwyd y llwybrau oedd yn cael eu cerdded yn gyson er mwyn eu rhestru i'w torri. Yn dilyn cyfnod clo dros fisoedd yr Haf, mewn sawl pentref, mae pobl wedi bod yn cerdded fwy, ac yn cerdded llwybrau sydd heb gael eu defnyddio ers blynyddoedd. Yn wyneb hyn, mae'r Cyngor yn derbyn mwy o gwynion am llwybrau sydd wedi eu llenwi gan ddrain a mieri, sawl arwydd wedi diflannu, ynghyd a cholli cyfeiriad cywir y llwybrau. Nodwyd fod Llwybr Tros y Waun I Dros y Waun Fach wedi ei anwybyddu a bron yn amhosib gweld na'i gerdded. Rhif y Llwybr yma mewn rhyw driongl ydi 61, 61A, 63 a 64

Yna nôl ym mis Mawrth nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan Swyddog Tramwy yn

nodi nad oeddynt wedi cael cyfle i ymweld â llwybr Cegin Arthur.

Penderfynwyd gyrru i'r adran yng Nghyngor Gwynedd yn nodi'r cwynion hyn, a gofyn iddynt ymweld â'r llwybrau i'w clirio.

Tirfeddianwyr - Mae'r Cyngor angen nodi, os oes rhywun yn cael ei wrthod neu droi oddi ar unrhyw lwybr cyhoeddus gan dirfeddiannwr dylent gysylltu â'r clerc neu gynghorwr yn syth trwy e-bost neu lythyr fel gall y cyngor greu cofnod o hyn.

Kiosk Rhiwlas - Derbyniwyd llythyr ymhellach yn holi am olau parhaol i Kiosk, lle mae'r diffriblydd. Roedd y Cyngor wedi penderfynu mai'r rheswm nad oedd y golau yn dod ymlaen yn y Kiosk oedd am fod golau stryd yn llachar uwch ei ben yn gwneud i'r switch feddwl ei bod yn ddydd. Nodwyd fod y golau yn gweithio, ac mai bai'r lamp uwchben oedd y broblem. Nodwyd fod Y Cyngor wedi gwario yn helaeth ar ddod a'r kiosk i safon er mwyn gallu ei ddefnyddio at osod Diffriblydd. Mae yna ddrws Newydd a golau Newydd wedi ei osod arno ar gost yn agos i £500. Nodwyd hefyd fod yna olau reit lachar ar y diffriblydd ei hun i fod. Felly ddylai fod y rheswm nad yw'r golau ddim yn dod ymlaen yn y kiosk fod cymaint â hynny o drafferth, gan fod yna lamp uwchben a golau ar y diffriblydd ei hun. Awgrymwyd, gan fod yna bwyllgor diffriblydd yn y pentref, a chan nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am ddim un diffriblydd arall o fewn y gymuned, efallai ei bod yn amser i'r Pwyllgor yma gymryd cyfrifoldeb am y kiosk. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r cynghorwyr cymunedol y pentref am fynd i edrych ar y sefyllfa gyda'r nos, a gweld os oes modd rhoi rhyw orchudd dros y swîts fel ei fod yn gweithio gyda'r nos.

Cyngor Tref Nefyn - Derbyniwyd llythyr yn gofyn am gefnogaeth i'w cynnig i ddatgan cefnogaeth i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Cytunwyd yn Unfrydol I gefnogi'r mesurau i ddelio gyda'r sefyllfa.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Tyn y Gadlys, Fachwen C20/0730/18/DT

Newidiadau ac Estyniad. - Dim Gwrthwynebiad

Rynys, Llanddeiniolen C20/0776/18/AC

Diwygio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio C19/0919/18/LL er mwyn newid y ffenestr ar dalcen dwyreiniol y tŷ - cysylltu â Chyngor Gwynedd am fwy o fanylion.

Lleiniau, Deiniolen C20/0790/18/LL

Addasu adeilad allanol i uned wyliau ynghyd a Gwaith cysylltiedig - Dim Gwrthwynebiad

Seddi Gwag

Mae sawl sedd wag ar Y Cyngor Cymuned bellach. Nid oes posib i'r Cyngor Cymuned weithio i wella pethau o fewn ein pentrefi os nad oes cynrychiolwyr yn barod i eistedd ar Y cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi mudiadau o fewn ein

cymuned ynghyd ac adrodd ar faterion neu broblemau i'r Cyngor Sir. Tybed oes rhywun yn dymuno rhoi llais dros eu pentrefi yn Y Cyngor. Mae angen Cynghorydd Cymunedol yn y pentrefi canlynol:

Deiniolen, Bethel, Brynrefail, Clwt y Bont.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r clerc ar 01286 871757 neu

clerc@cyngorllanddeiniolen.cymru

Meysydd Chwarae

Cafwyd trafodaeth agored ar ein sefyllfa ynglŷn â'r meysydd chwarae, lle mae'r Cyngor Sir angen eu trosglwyddo i ofal y Cyngor Cymuned. Rydym fel Cyngor mewn sefyllfa anffodus iawn, yn wahanol i lawer i blwyf arall, mae ganddo 8 parc chwarae ac 1 cael pêl droed o fewn y plwyf. Pwyntiau a drafodwyd ar y mater yma:

Darllenwyd llythyrau yn cyflwyno eu barn y neu absenoldeb gan y Cynghorwyr Idris Thomas a Lowri Hughes.

Diffyg cael pobl o fewn ein pentrefi i fynychu Pwyllgorau Cae Chwarae er mwyn ceisio am grantiau

Cost Yswiriant, lechyd a diogelwch

Cost i ddod ag offer presennol i safon dderbyniol oes heddiw

Gorfodaeth o godi trethi Cyngor Cymuned

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn cael gwneud ceisiadau am grantiau

Y Cyngor Sir ddim am adnewyddu fel mae adnoddau yn torri,

Hyn eto yn darged tuag at blant a phobl ifanc ein cymuned

Llywodraeth am i blant gadw yn heini

Ar hyn o bryd mae'r adnoddau yma yn gynwysedig yn ein trethi I Gyngor Gwynedd.

Buasai rhaid I Gyngor Cymuned godi trethi i gynnal yr adnoddau, ac eto ni fuasai trethi Cyngor Gwynedd yn gostwng.

Mae effaith Covid 19 yn mynd i fod yn galed ar ein cymunedau, ac oherwydd hynny, teimlwyd fod angen mwy o gefnogaeth i'r gymuned yn hytrach na chodi trethi.

Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynwyd cael adroddiad cynhwysfawr o'r parciau ar eu cyflwr presennol, a faint o fuddsoddi y buasai angen i ddod a hwy i safon, neu am ba oes sydd ganddo ar yr offer presennol. Cysylltu â Chyngor Gwynedd er mwyn cael eu hadroddiad hwythau o'r parciau.

Mae'r Cyngor yn awyddus ein bod wedi edrych ar y sefyllfa yn drylwyr a bod ffeithiau cywir ganddom cyn penderfynu.

Cyllideb

Mae yn amser bellach lle fod Y Cyngor yn penderfynu ar gyllideb y flwyddyn nesaf a'r hir dymor. Yn dilyn ein trafodaeth ar Feysydd Chwarae, penderfynwyd fod rhaid gohirio hyn, nes y byddwn wedi penderfynu ein ffordd ar y Meysydd Chwarae.

Bancio tros y We - Nododd y clerc, y buasai hyn wedi bod cymaint o werth yn ystod y cyfnod clo. Mae mantais fawr iddo bellach, nid yn unig i'r Cyngor ond i'n credydwyr oedd methu cael mynediad i fynd sieciau i fanc. Bydd hefyd o fudd i ni wrth dalu rhoddion i fudiadau yn y dyfodol. Penderfynwyd yn unfrydol gefnogi hyn, ac edrych

i'w gynnwys yn ein rheoliadau ariannol.

O gwmpas y Bwrdd

Adeiladau - Awgrymwyd ein bod i gyd yn edrych ar adeiladu sydd yn mynd ymlaen yn ein cymunedau, ac oes caniatâd cynllunio ayyb

Mapiau Cyngor Cymuned - Yn dilyn llwyddiant y mapiau yma sawl blwyddyn yn ôl, efallai fod yn amser i'r Cyngor Cymuned feddwl am wneud rhywbeth tebyg ond ar drywydd gwahanol. Dywedwyd bod yn nesu at 2 ganrif ers hanes Dafydd Du Eryri, ac efallai bod hyn yn gyfle i nodi'r hanes ac efallai creu hanesyn o enwogion yr ardal. Gobeithio cawn ystyried hyn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cyfarfod Blynyddol

Nodyn atgoffa bydd Cyfarfod Blynyddol Y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal am 7:00 Nos Fawrth 3ydd o Dachwedd, yna bydd ein cyfarfod misol yn dilyn. Cysyllter â'r clerc am fwy o fanylion.

Cadarnhau Taliadau

Dim